# Gwerthusiad o'r Prosiect Ymholi Proffesiynol Cenedlaethol (PYPC) – Cyfweliadau â Rhanddeiliaid

Mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu Prifysgol Bangor i archwilio a choladu adroddiadau'r Prosiect Ymholi Proffesiynol Cenedlaethol (PYPC). Bydd yr ymchwil hon hefyd yn archwilio pa mor hygyrch yw'r adroddiadau hyn i ymarferwyr ac ymchwilwyr.

Fel rhan o'r cam hwn o'r ymchwil, mae Prifysgol Bangor yn ceisio cynnal cyfweliadau ag ymarferwyr a rhanddeiliaid sydd wedi bod yn rhan o'r PYPC.

Bydd y cyfweliadau'n cynnwys trafodaeth â'r ymchwilydd ar sail cwestiynau penodedig mewn dull lled-strwythuredig. Mae'n debygol y bydd y cyfweliadau'n cael eu cynnal ar-lein drwy Microsoft Teams ac yn para dim mwy nag awr. Bydd y cyfweliadau'n cael eu cynnal naill ai drwy'r Gymraeg neu'r Saesneg, yn dibynnu ar ddewis yr unigolyn sy'n cymryd rhan.

Llywodraeth Cymru yw'r rheolwr data ar gyfer yr ymchwil hon. Fodd bynnag, bydd Prifysgol Bangor yn dileu unrhyw ddata personol a ddarperir drwy'r cyfweliadau ac yn dienwio'r data crai cyn ei rannu â Llywodraeth Cymru.

Mae cymryd rhan yn gwbl wirfoddol. Fodd bynnag, mae eich barn a'ch profiadau'n bwysig i helpu i lywio'r prosiect ymchwil hwn gan Lywodraeth Cymru a pholisïau'r Llywodraeth.

Mae'r astudiaeth ymchwil hon wedi derbyn cymeradwyaeth foesegol gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil Ysgol Addysg Prifysgol Bangor.

**Cyswllt ar gyfer yr ymchwil hon yn y Brifysgol:**
Dr Emma Tiesteel: e.tiesteel@bangor.ac.uk

# Hysbysiad Preifatrwydd

**Pa ddata personol sydd gennym a ble cawn y wybodaeth hon?**
Diffinnir data personol o dan Reoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU (UK GDPR) fel ‘unrhyw wybodaeth sy’n ymwneud ag unigolyn y gellir ei adnabod yn uniongyrchol neu’n anuniongyrchol drwy gyfeirio at ddynodwr’.

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu eich manylion cyswllt (enw, cyfeiriad e-bost a rhif ffôn) i Brifysgol Bangor fel unigolyn sydd â diddordeb proffesiynol yn y pwnc ymchwil. Mae Llywodraeth Cymru yn cadw eich manylion cyswllt gan eich bod yn rhan o’r gwaith ymgysylltu gyda’r PYPC. Bydd Prifysgol Bangor ond yn defnyddio eich cyfeiriad e-bost a’ch rhif ffôn i drefnu cyfweliad fel rhan o’r ymchwil hon.

Nid oes angen i chi ddarparu unrhyw ddata personol ychwanegol fel rhan o’r cyfweliad ac eithrio’ch delwedd os byddwch yn cytuno i recordio’r cyfweliad ar fideo.

Efallai y byddwn yn dymuno recordio cyfweliadau at ddibenion gweithredol. Bydd hyn yn cael ei egluro i chi cyn i’r cyfweliad ddechrau, a bydd gennych gyfle i ddweud os nad ydych yn dymuno i’r drafodaeth gael ei recordio. Os bydd cyfweliadau’n cael eu recordio, bydd unrhyw ddata personol yn cael ei dynnu yn ystod y broses drawsgrifio, er y bydd enw a rôl pob unigolyn yn cael eu cadw. Bydd recordiadau’n cael eu dileu cyn gynted ag y bydd y broses drawsgrifio wedi’i chwblhau. Os na fydd cyfweliadau’n cael eu recordio, ni fydd data personol yn cael ei gynnwys yn y nodiadau ysgrifenedig ar wahân i’ch enw a’ch rôl.

**Beth yw’r sail gyfreithiol dros ddefnyddio eich data?**
Y sail gyfreithiol dros brosesu gwybodaeth yn yr ymarfer casglu data hwn yw ein tasg gyhoeddus — hynny yw, ymarfer ein hawdurdod swyddogol i gyflawni swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru.

Mae cymryd rhan yn gwbl wirfoddol. Bydd cymryd rhan yn helpu i sicrhau bod y prosiect ymchwil yn adlewyrchu barn ystod eang o randdeiliaid, gan ddarparu dealltwriaeth ddyfnach o’r tueddiadau presennol a mecanweithiau posibl ar gyfer newid.

## Pa mor ddiogel yw eich data personol?

Mae gwybodaeth bersonol a ddarperir i Brifysgol Bangor bob amser yn cael ei storio ar weinydd diogel, wedi'i warchod gan system dilysu dau gam Microsoft. Dim ond gan nifer gyfyngedig o ymchwilwyr sy'n gweithio ar y prosiect hwn y gellir cael mynediad at y data. Dim ond at ddibenion ymchwil y bydd Prifysgol Bangor yn defnyddio'r data hwn.

Mae gan Brifysgol Bangor weithdrefnau ar waith i ddelio ag unrhyw dor diogelwch data posibl. Os bydd tor diogelwch yn cael ei amau, bydd y Brifysgol yn hysbysu Llywodraeth Cymru, a fydd yn eich hysbysu chi ac unrhyw reoleiddiwr perthnasol os oes gofyn cyfreithiol i wneud hynny.

Bydd yr adroddiad terfynol yn cael ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru. Ni fydd yr adroddiad yn cynnwys unrhyw wybodaeth a allai arwain at adnabod unigolion.

## Am ba hyd y byddwn yn cadw eich data personol?

Bydd Prifysgol Bangor yn cadw data personol yn ystod cyfnod y contract, ac unrhyw ddata personol nad yw eisoes wedi'i ddileu bydd yn cael ei ddileu o fewn tri mis i ddiwedd y contract. Mae hyn yn cynnwys eich manylion cyswllt a'r holl drawsgrifiadau.

## Eich Hawliau Unigol

O dan UK GDPR, mae gennych yr hawliau canlynol mewn perthynas â'r wybodaeth bersonol a ddarperwch fel rhan o'r panel cynghori hwn:

- Cael copi o'ch data.
- Cywiro unrhyw wallau yn eich data.
- Gwrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu data mewn amgylchiadau penodol.
- Gofyn i'ch data gael ei ddileu mewn amgylchiadau penodol.
- Gwneud cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO).

## Manylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO):

Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire, SK9 5AF. Ffôn: 0303 123 1113
Gwefan: www.ico.org.uk

## Gwybodaeth Bellach

Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach am sut y bydd y data a ddarperir fel rhan o'r astudiaeth hon yn cael ei ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru, neu os hoffech arfer eich hawliau o dan UK GDPR, cysylltwch â:

Enw: Lisa Clarke
E-bost: Lisa.Clarke@llyw.cymru
Ffôn: 03000 622356

Gellir cysylltu â Swyddog Diogelu Data Llywodraeth Cymru yn:
Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ
E-bost: DataProtectionOfficer@llyw.cymru